

W204.01

DEWIS CYMYSGEDD O HADAU

Dylid ystyried yr wybodaeth a roddir am fathau o borfa a meillion wrth ddewis cymysgedd hadau er mwyn sicrhau bod y mathau a ddewisir a'r gymysgedd yn addas ar gyfer y defnydd a fwriedir.

PORFEYDD CYNHYRCHIANT UCHEL

Rhygwellt Eidalaid (IRG)

Sefydlu'n gryf a chyda chynhyrchiant uchel. Twf cynnar, tymor hir, cynnwys siwgr uchel. Gorchudd daear 2-4*. Tiroedd gwndwn 1-2 flynedd. Dyddiadau tywysennu: canol-diwedd Mai. Angen ei dorri'n aml, a'i bori'n dynn er mwyn cynnal ei ansawdd. Ymateb i ffrwythlonder. Hadau mawr ac yn ymsefydlu'n gryf.

Rhygwellt hybrid (HRG)

Hybrid rhygwellt Eidalaid X rhygwellt parhaol. Ychydig yn llai cryf ac yn cynhyrchu llai nag IRG, ond gwell ansawdd canol tymor, ac yn fwy parhaol (yn enwedig y mathau newydd). Gorchudd daear 3-5.5*; tiroedd gwndwn 3-5 mlynedd.

Rhygwellt parhaol (PRG)

Prif gynhaliwr tiroedd gwndwn tymor canolig/hir/tir glas parhaol. Gallu addasu, maethlon, ac ymateb i wlybaniaeth a ffrwythlonder pridd. Mathau newydd ar gael (e.e AberDart) sydd â chynnwys siwgr uchel. Dosberthir yn ôl dyddiad tywysennu. Mae'r mathau sy'n tywysennu'n hwyrach yn cael eu cysylltu â'r math deiliog, mwy parhaol.

Cynnar Tywysennu dechrau-canol Mai
Gorchudd daear 5-7.5*

Canolig Tywysennu ddiwedd Mai
Gorchudd daear 5-8*

Hwyr Tywysennu dechrau-canol Mehefin
Gorchudd daear 6-8

Mae mathau **Diploid** a **Tetraploid** o IRG, HRG a PRG ar gael. Mae'r mathau **Tetraploid** yn cynhyrchu mwy adeg torri'r silwair cyntaf, mae iddynt gynnwys siwgr a gwlybaniaeth uchel, ond tueddant i dyfu'n fwy 'agored' ac maent yn llai parhaol. Yn nodweddiadol, mae nifer yr hadau/kg 50-60% yn unig o'r mathau diploid cyfatebol. Ni ddylai mathau Tetraploid fod yn fwy na 50% o gymysgeddau hadau tymor canolig/hir.

Timothy

Tywysennu'n hwyr, gwydn drwy'r gaeaf a blasus. Yn addas ar gyfer pridd trwm a gwlypach ac ar gyfer tir i'w bori gan ddefaid yn y gaeaf. Cynnwys siwgr isel. Wedi'i ddisodli gan fathau PRG tetraploid ar diroedd gwndwn silwair a thiroedd gwndwn a borir yn drwm iawn. Gorchudd daear 4.5-6.5*. Hadau bach iawn ac araf yn sefydlu.

* Gorchudd Daear – o'r Rhestr gyfredol a Argymhellir gan NIAB. 1=gwael; 9=da. Yn dangos gallu i braffu a pharhau.

PORFEYDD ERAILL

Byswellt – tywysennu'n gynnar, yn gallu goddef sychdwr, rhywogaeth gynhyrchiol ond yn dal i fod yn ddi-flas hyd yn oed mewn mathau sydd wedi'u 'gwella'. Defnyddiwch yn arbennig ar gyfer pori ar bridd sych iawn.

Peiswellt Coch – mae'r mathau sy'n wydn drwy'r gaeaf ac sy'n tyfu'n gynnar yn ddefnyddiol ar dir pori mynydd. Angen pori tynn i gynnal ei ddeiliogrwydd a'i ansawdd.

Peiswellt y Waun – rhywogaeth faethlon, ddeiliog a ddefnyddir yn draddodiadol gyda Timothy mewn tiroedd gwndwn porfa/meillion. Llai cryf ac yn cynhyrchu llai na PRG. Gall fod yn ddefnyddiol mewn tiroedd gwndwn porfa/meillion, ar ddwysedd isel.

MEILLION

Meillion Gwyn

Maethlon, rhywogaeth 'creu nitrogen' sy'n addas ar gyfer tiroedd gwndwn pori neu diroedd gwndwn pori/torri. Tyfiant a goroesiad y 'stolonau' ar wyneb y pridd sy'n penderfynu pa mor barhaol ydynt. Dosberthir mathau yn ôl 'maint y ddeilen'.

Dail-bychan – yn fwy parhaol a goddefgar o bori tynn gan ddefaid

Dail-canolig – math canolradd ar gyfer gwartheg neu bori cylchdro, tiroedd gwndwn torri/pori. Mae'r mathau newydd yn addasu'n well i amrywiaeth o ddulliau rheoli.

Dail-mawr – dail mwy a phetiolau hirach wedi'u haddasu'n well ar gyfer cyfnodau pori hwy neu reolaeth silwair, ond maent yn llai goddefgar o bori tynn neu aml.

Dylid seilio eich dewis o fath hefyd ar ofynion ar gyfer gwydnwch gaeaf, twf yn y gwanwyn, gorchudd daear, gallu i wrthsefyll clefydau, cynnyrch.

Meillion Coch

Maethlon, rhywogaeth 'creu nitrogen' sy'n addas ar gyfer tiroedd gwndwn tymor byr, tiroedd gwndwn torri neu diroedd gwndwn torri-pori.

Mae un pwynt tyfu yn golygu na all y planhigyn oddef pori tynn neu bori yn y gaeaf.

Gwydnwch wedi'i gyfyngu i 3-4 blynedd.

Defnyddiwch fathau gwydn a chylchdroi (5 mlynedd) i osgoi clefydau a ddaw o'r pridd (Sclerotinia) a llyngyr llysiâu coesgynnu.

Mae eu cynnwys oestrogen yn gwneud meillion coch yn anaddas i'w bori gan ddefaid adeg 'hwrdda' ac yng nghyfnod cynnar beichiogrwydd.

RHAI MODELAU CYMYSGEDD HADAU

4. GWNDWN TYMOR BYR

Hyd: 1-2 flynedd

Defnydd: toriadau silwair aml a phori

Math	kg/erw
IRG	8.0
IRG (tet)	6.0
Cyfanswm	14

- Dewis math ar gyfer safle/defnydd gwirioneddol yn ôl gwydnwch yn y gaeaf, gorchudd daear, twf yn y gwanwyn, dyddiad tywysennu, gallu i wrthsefyll clefydau.

5. GWNDWN SILWAIR

Hyd: 3-5 mlynedd

Defnydd: 3-4 toriad y flwyddyn, defnydd N uchel;dim meillion

Math	kg/erw
HRG (tet)	6.0
PRG Canolradd	4.0
PRG Canolradd	3.0
Cyfanswm	13

- Dewis mathau PRG gyda dyddiadau tywysennu tebyg i'r HRG a ddewiswyd.
- Cynnwys math PRG gyda chynnwys siwgr uchel.
- Opsiwn i ychwanegu 1.0kg/erw o feillion gwyn (cyfuniad dail maint canolig a mawr).

6. GWNDWN TORRI TYMOR CANOLIG A GWNDWN PORI

Hyd: 5-7 mlynedd

Defnydd: 1-2 toriad silwair a phori

Math	kg/erw
HRG (tet)	3.0
PRG Canolradd	4.0
PRG Hwyr	2.5
PRG Hwyr (tet)	2.5
Meillion gwyn	1.0
Cyfanswm	13

- Dewis mathau HRG a PRG Canolradd, gyda dyddiad 67D 25 Mai – 1 Mehefin a mathau PRG hwyr yn agos i 1 Mehefin.
- Dewis mathau i fodloni'ch angen ar gyfer twf cynnar, gorchudd daear, gwydnwch yn y gaeaf a gallu i wrthsefyll clefydau.
- Defnyddiwch feillion dail maint canolig neu gyfuniad o fathau meillion dail maint canolig a mawr.

1. GWNDWN SILWAIR MEILLION COCH

Hyd: 3-4 blynedd

Defnydd: 3-4 toriad silwair neu 2 doriad, yn ogystal â gorffennu wyn/gwartheg yn yr haf

Math	kg/erw
HRG (tet)	5.0
PRG Canolradd	2.0
PRG Canolradd/Hwyr	2.0
Meillion Coch (cynnar)	3.0
Cyfanswm	12

- Dewis mathau PRG gyda dyddiad tywysennu tebyg i'r HRG a ddewiswyd.
- Dewis mathau PRG gyda chynnwys siwgr uchel.

2. GWNDWN PORI TYMOR HIR I WARTHEG GODRO

Hyd: 7 mlynedd a mwy

Defnydd: Pori dwys gan wartheg godro gyda meillion

Math	kg/erw
PRG Canolradd	4.0
PRG Hwyr	3.5
PRG Hwyr (tet)	3.5
Meillion gwyn	1.0
Cyfanswm	12.0

- Dewis PRG Canolradd gyda dyddiad 67D hwyrach na 25 Mai.
- Dewis math meillion gwyn neu gyfuniad o fathau dail maint canolig.
- Dewis peidio â chynnwys meillion ar gyfer systemau N uchel.

3. GWNDWN PORI TYMOR HIR I DDEFAID (tir trwm)

Hyd: 7 mlynedd a mwy

Defnydd: Ar gyfer pori dwys parhaus neu bori cylchdro gan ddefaid

Math	kg/erw
PRG Canolradd	3.0
PRG Hwyr	4.0
PRG Hwyr (tet)	3.0
Timothy	1.5
Meillion Gwyn (dail bychan)	0.5
Meillion Gwyn (dail canolig)	0.5
Cyfanswm	12.5

- Dewis PRG Canolradd gyda dyddiad 67D hwyrach na 25 Mai.
- Ar safleoedd ysgafnach, sych, defnyddiwch PRG 2.5kg ychwanegol yn lle Timothy.

Gellir lleihau cyfraddau hadau o 2kg/erw ar gyfer cymysgeddau hadau tymor byr/canolig ac o 1kg/erw ar gyfer cymysgeddau hadau tymor hir wrth dan-hau.

GWYBODAETH BELLACH

Address: GTTP/IGER Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EB

Ffôn: IGER, Uned Trosglwyddo Technoleg Tir Glas, 01970 823026.

Ebost: gttp@bbsrc.ac.uk, Gwefan: <http://www.iger.bbsrc.ac.uk>.

Darllen: Rhestrau a argymhellir gan NIAB 2001 o borfeydd a chodlysiau porfa.